

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 18 CHWEFROR 2022

Yn
bressenol: Cynghorydd Colbran(Cadeirydd)

Cynghorwyr John, Cowan, Cunnah, Henshaw, Jarvie, K Jones,
R Lewis, Robson a/ac Smith

82 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Wendy Lewis.

83 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

84 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

85 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AR GYFER Y CYFNOD 1
TACHWEDD 2021 I 31 IONAWR 2022

Rhodddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2021 – 31 Ionawr 2022 i gyd wedi'u categorio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Yn gryno, dywedodd yr Archifydd mai un o'r agweddau mwyaf dymunol ar y chwarter hwn oedd adnewyddu statws Achredu Archifau'r gwasanaeth am dymor arall o chwe blynedd. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y panel yn arbennig o dda o ystyried yr anawsterau y mae'r gwasanaeth wedi'u dioddef dros y pandemig. Mae gwaith eisoes ar y gweill ar yr argymhellion a dderbyniwyd yn y llythyr canlyniadau.

Ychwanegodd yr Archifydd fod y tîm wedi parhau i weithio'n galed i symud ymlaen yn erbyn ystod eang o dargedau y chwarter hwn, fel y gellir dangos tystiolaeth o'r incwm a gyflawnwyd a nifer yr eitemau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau ac arsylwadau a gofyn unrhyw gwestiynau;

Roedd yr Aelodau am longyfarch y tîm ar adnewyddu'r Achrediad.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

86 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021 - I DDILYN

Derbyniodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o Adroddiad Blynyddol 2020-2021.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

87 : NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU O EBRILL 2022

Cafodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad ond gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cynnydd yng nghost Ardystio Copïau Ffacs. Cytunodd yr Archifydd ei fod yn edrych fel cynnydd sydyn ond esboniodd fod y gost yn isel iawn o'r blaen. Roedd meincnodi wedi'i wneud ac roedd y gost newydd yn gymaradwy ac yn adlewyrchu'r amser y mae'n ei gymryd i gynhyrchu'r ardystiad. Ychwanegodd yr Archifydd, os yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw gwynion am y cynnydd, y byddant yn edrych arno eto.

Trafododd yr Aelodau'r costau trwyddedu newydd a dywedwyd wrthynt eu bod bellach yn cyd-fynd â gwasanaethau eraill. Yn flaenorol, roedd costau wedi'u pennu fesul achos ond erbyn hyn roedd graddfa o daliadau sy'n ei gwneud yn haws i staff ymateb i ymholiadau.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cynnydd mewn ffioedd yn golygu y gallai rhai grwpiau fod o dan anfantais ac a oedd gan yr Archifydd unrhyw ddisgresiwn i liniaru hyn. Rhoddodd yr Archifydd sicrwydd i'r Aelodau y byddai ganddi bob amser yr hawl i liniaru ac na allai feddwl am unrhyw grŵp a allai fod o dan anfantais.

PENDERFYNWYD: i gytuno ar raddfa arfaethedig Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2022-23.

88 : MONITRO CYLLIDEB – ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB 9 MIS

Rhoddwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: i nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn yr adroddiad.

89 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 20 MAI 2022 AM 2.00PM

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm